Isaac Watts 1674–1748

Gweinidog yr Efengyl, emynydd

Yn Southampton, yr hynaf o wyth o blant i'r dilledydd Isaac Watts a'i wraig Sarah, y ganwyd Isaac Watts a hynny ar 17 Gorffennaf 1674. Carcharwyd ei dad oherwydd ei ddaliadau Anghydffurfiol ym 1674, 1678 a 1683. Yn ystod ei garchariad ysgrifennodd lythyr hir o gyngor crefyddol i'w blant. Roeddent fel teulu yn aelodau o Eglwys Gynulleidfaol Above Bare lle roedd ei dad yn ysgrifennydd a diacon. Daeth ei dad yn feistr mewn ysgol lwyddiannus. Dechreuodd ddysgu Lladin i'w fab ym 1678. Bu fyw i weld ei fab yn dod yn un o brif arweinyddion Anghydffurfiaeth Brotestannaidd yn Lloegr.

Rhwng 1680 a 1690 addysgwyd Isaac Watts yn Ysgol Ramadeg Rydd Southampton gan John Pinhorne, rheithor eglwys All Saints. Yn ogystal â Lladin dysgodd Roeg, Ffrangeg a Hebraeg. Oherwydd ei ddawn amlwg cynigiodd John Speed, meddyg lleol, ei noddi i fynd i brifysgol ar yr amod y byddai'n cydymffurfio ag Eglwys Loegr ond gwrthododd gan ddewis parhau i fod yn Anghydffurfiwr. Aeth wedyn i'r Academi Anghydffurfiol yn Little Britain, Llundain, a arweinid gan Thomas Rowe. Yma datblygodd Watts yn ysbrydol ac yn academaidd. Wedi cyfnod yng nghartref ei dad yn Southampton yn darllen ymhellach, yn Hydref 1696 aeth i Newington i weithio am chwe blynedd fel tiwtor i fab Sir John Hartopp. Ym 1699 fe'i penodwyd yn gynorthwyydd i Isaac Chauncy, gweinidog eglwys Annibynnol oedd yn cyfarfod yn Mark Lane, Llundain. Nid oedd Chauncy yn llwyddiannus fel gweinidog ac fe ymddiswyddodd ym 1701. Y flwyddyn ddilynol fe dderbyniodd Watts alwad i fugeilio'r eglwys. Tyfodd yr eglwys o dan ei arweiniad ac adeiladwyd tŷ cwrdd newydd yn Duke's Place, Bury Street. Daeth yr eglwys hon yn ganolfan bwysig i Anghydffurfiaeth efengylaidd yn ystod y ddeunawfed ganrif. Yn ystod y cyfnod hwn fe gafodd Isaac Watts gyfnod hir o salwch a bu nifer o gyfeillion yn garedig tuag ato gan ei wahodd i aros yn eu cartrefi. Ym 1712 cafodd wahoddiad i aros am wythnos gyda Syr Thomas Abney a'i deulu yn Lime Street, Llundain, ac fe dreuliodd weddill ei oes ar ei aelwyd.

Yn hanner cyntaf ei yrfa lenyddol cyhoeddodd bedwar casgliad o benillion sef *Horae lyricae* (1706), *Hymns and Spiritual Songs* (1707*), Divine Songs Attempted in Easy Language* (1715) a *The Psalms of David* (1719). Ystyriai Watts ddawn farddonol yn rhodd ddwyfol y dylid ei defnyddio i wasanaethu Duw. Mewn cyfarfod yn Southampton cwynodd Watts wrth ei dad am safon isel yr emynau oedd yn cael eu canu. Dywedodd ei dad wrtho am wneud rhywbeth ynglŷn â'r peth, ac felly y gwnaeth trwy fynd ati i gyfansoddi. Ymhlith ei emynau mwyaf poblogaidd y mae 'Our God our help in ages past', 'Come let us join our cheerful songs' a 'When I survey the wondrous cross'. Efelychodd William Williams Pantycelyn yr emyn olaf hwn yn Gymraeg, 'Wrth edrych, Iesu, ar dy groes'.

Cyflawnodd Watts lawer iawn o waith trwy ysgrifennu deunydd addysgol i bobl o bob oed, o blant bychain i fyfyrwyr prifysgol. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn dulliau ac egwyddorion addysgu. Ei waith pwysicaf yn y maes hwn oedd *Logick: or the Right Use of Reason in the Enquiry after Truth* (1725). Ymddiddorai hefyd mewn athroniaeth ac ymhlith ei weithiau ceir *The Doctrine of the Passions* a *Discourses of the Love of God*. Cyhoeddodd hefyd esboniadau Beiblaidd, pregethau ac ysgrifau a llyfrau diwinyddol yn trafod prif athrawiaethau Cristnogaeth fel *The Christian Doctrine of the Trinity* (1722). Cydnabuwyd ei gyfraniad mawr pan dderbyniodd radd DD er anrhydedd ym 1728 gan Brifysgolion Caeredin ac Aberdeen. Bu farw yn Abney Park ar 25 Tachwedd 1748 a chladdwyd ei gorff yn Bunhill Fields, Llundain.